# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Anita Horne**

**Caerdydd**



## Dyddiad Cyhoeddi

**11 Ebrill 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth gofal plant o'i chartref teulu yn ardal yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd. Mae'n darparu gofal o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 8:00am tan 6:00pm. Gall ofalu am hyd at 10 o blant ar unrhyw adeg ac mae'n cynnig lleoedd i blant o oed geni hyd at 12 oed. Gofelir am y plant ar y llawr gwaelod yn unig, ac mae mynediad hawdd i'r ardd gefn gaeedig.  Saesneg yw iaith y gwasanaeth ac nid yw'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.'

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**

   Caiff y plant eu croesawu i amgylchedd cynnes a chartrefol. Maent yn hapus, yn gyfforddus ac wedi ymgartrefu yng ngofal y gwarchodwr plant. Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth wedi'u cadw'n dda ar y cyfan, ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r amgylchedd yn addas at ddibenion gwarchod plant gyda mynediad i'r holl gyfleusterau sydd eu hangen. Cynigir amrywiaeth o gyfleoedd i gadw'r plant yn brysur ac mae'r plant yn dysgu drwy chwarae. Mae'r plant yn mwynhau teithiau allan yn rheolaidd ac yn mynd i grwpiau chwarae lleol.

2. **Gwelliannau**

   Ers yr arolygiad diwethaf mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol er mwyn gwella ei busnes. Mae bellach yn cofnodi damweiniau ac anafiadau sydd gan y plant eisoes mewn ffordd briodol.
   Yn ystod yr arolygiad hwn, aeth y gwarchodwr plant i'r afael â phroblem gyda'i hyswiriant car ac aeth ati i ddiweddaru ei Datganiad o Ddiben er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol.

3. **Gofynion ac argymhellion**

   Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol o ran cadw cofnodion o ymarferion tân. Tynnwyd sylw'r gwarchodwr plant at hyn a chytunodd i weithredu arno.  Felly, nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth y tro hwn.

   Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â materion gweithredol gan gynnwys; diweddaru ei gwybodaeth am weithdrefnau amddiffyn plant a gwella ansawdd rhai o'r polisïau a'r ddogfennaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran 5 a nodir y manylion yng nghorff yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi ymlacio. Maent yn teimlo'n ddiogel a chânt eu hannog i leisio'u barn a gwneud ceisiadau. Rhoddir cyfleoedd i'r plant ddysgu a datblygu drwy ymarferion chwarae da. Mae'r plant hŷn yn annibynnol a gallant wneud pethau drostynt eu hunain.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Caiff y plant ddigon o ddewis a gallant leisio'u barn. Gwnaethant benderfyniadau am sut a ble roeddent yn chwarae yng nghartref y gwarchodwr plant. Roeddent yn dewis ac yn gofyn am deganau o wahanol ardaloedd i gael chwarae â nhw, ac yn symud yn rhydd rhwng y tŷ a'r tu allan gan ddilyn eu diddordebau eu hunain. Gofynnodd plentyn am degan penodol a threuliodd y gwarchodwr plant amser yn chwilio amdano. Clywsom ddigonedd o sgwrsio a pharablu ac roedd y plant nad oeddent yn gallu siarad eto yn gallu mynegi eu hunain. Anogwyd y plant i ddewis yr hyn roeddent ei eisiau i'w fwyta ac roedd yn amlwg eu bod yn gyfforddus i ddweud beth roeddent ei eisiau.

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn fodlon eu byd yng ngofal y gwarchodwr plant. Roeddent wedi datblygu cydberthynas gref â'r gwarchodwr plant. Nid oedd ein presenoldeb yn poeni'r plant o gwbl, sy'n dangos ymdeimlad cryf o fod yn ddiogel ac yn gyfarwydd â'u hamgylchedd. Roeddent yn sgwrsio â'r gwarchodwr plant mewn ffordd ddigynnwrf a naturiol. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau â'r plant eraill, a gwnaethant siarad â ni am eu ffrindiau nad oeddent yno y diwrnod hwnnw. Roedd y plant yn mwynhau rhannu llyfrau â'r gwarchodwr plant, ac roeddent yn eistedd yn hapus ar y soffa gan ddangos cydberthynas glos.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac maent wedi meithrin cydberthynas â'r gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Roeddent yn chwarae gyda'i gilydd yn dda ac yn naturiol iawn. Roedd y plant hŷn yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant iau. Roeddent yn eu cynnwys mewn gemau ac yn amyneddgar ac yn garedig. Mae'r plant yn dechrau dysgu sut i rannu, cymryd eu tro a chydweithio ac yn dangos sensitifrwydd at

anghenion ei gilydd. Gwelsom ddau blentyn yn rhannu offer yn dda wrth chwarae gyda chlai a'r offer awyr agored. Mae'r plant yn gwrtais. Clywsom y plant yn dweud '*please*' a '*thank you*' yn rheolaidd gan ddangos eu bod yn defnyddio moesau da fel mater o drefn.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, gan ddangos bod ganddynt feddwl mawr o'i gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r gweithgareddau sydd ar gael yn dal sylw'r plant. Mae digon o adnoddau ar gael iddynt, a'r rheini'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Gwelwyd y plant yn symud yn rhydd rhwng y profiadau chwarae gwahanol, ac roeddent yn defnyddio'u dychymyg i greu eu gemau eu hunain. Wrth i ni arsylwi, gwelsom blentyn yn mwynhau chwarae gyda K-nex, sef tegan adeiladu bach, am gryn dipyn o amser. Bu'n creu modelau a chymeriadau amrywiol, gan ennill ymdeimlad o gyflawniad o wneud hynny. Roedd un plentyn wrth ei fodd pan ymunodd y gwarchodwr plant mewn gêm bat a phêl gydag ef yn yr ardd.

Mae'r plant wrth eu bodd â'r profiadau chwarae a dysgu sydd ar gael iddynt.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o weithgareddau sy'n eu helpu i ddysgu drwy chwarae. Gallant roi cynnig ar amrywiaeth dda o chwarae a ddewiswyd ganddynt hwy eu hunain neu chwarae ag arweiniad. Gwelsom y plant yn gwneud hyn yn hyderus, gan arbrofi gyda theganau a gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y plant yn rhyngweithio â'r gwarchodwr plant wrth iddynt chwarae, gan ofyn cwestiynau iddi, y byddai'r gwarchodwr plant yn ymateb yn briodol iddynt. Roedd hyn yn ymestyn dysgu'r plant ac yn eu hannog i fod yn greadigol ac yn fyfyriol. Anogir y plant i wneud pethau drostynt eu hunain, fel tynnu a gwisgo'u hesgidiau eu hunain, bwydo'u hunain, gofal personol a thacluso teganau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu, datblygu a dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn chwilio am ffyrdd o sicrhau y cânt eu diwallu. Mae'r rhan fwyaf o'r polisïau sydd ar waith yn gyfredol ar y cyfan. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgymryd â chyrsiau hyfforddi rheolaidd, er mwyn gwella ei gwybodaeth a datblygu ei gwasanaeth. Mae ganddi arferion sefydledig sy'n helpu i gadw plant yn ddiogel.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn arfer da o ran bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw. Mae'n sicrhau bod y plant yn gorfforol egnïol bob dydd ac mae'n darparu byrbrydau iachus. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol briodol ac mae wedi cwblhau dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd. Roedd yr arferion a sefydlwyd yn hyrwyddo hylendid da. Roedd y plant yn cael eu hannog i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Defnyddir tywelion dwylo unigol i leihau’r risg o groeshalogi. Mae polisi meddyginiaeth ar waith ac ni chaiff meddyginiaeth ei rhoi heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau yn briodol.  Roedd y wybodaeth am ddiogelu yn aneglur.  Nid oedd y polisi a oedd ar waith yn cynnwys gwybodaeth am ba gamau a fyddai'n cael eu cymryd pe bai honiad yn cael ei wneud yn ei herbyn. Mae hefyd yn drysu at bwy y dylid cyfeirio atgyfeiriadau yn ymwneud â diogelu plant. Dilynir asesiadau risg ac arferion diogelwch yn ofalus er mwyn lleihau'r risgiau i'r plant gymaint â phosibl a hyrwyddo eu llesiant. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi presenoldeb y plant ac yn nodi'r amser y maent yn ei dreulio yn y lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu prosesau addas a rhai gweithdrefnau da i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae lle i gryfhau'r ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi rheoli ymddygiad priodol ar waith. Gwelsom fod y gwarchodwr plant yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol er mwyn hyrwyddo llesiant y plant. Dywedodd wrthym ei bod yn ystyried oedran a cham datblygiad y plant ac yn deall bod y ffactorau hyn yn gallu effeithio ar ymddygiad y plant. Roedd y gwarchodwr plant yn ymatebol; siaradai'n addfwyn ac roedd yn rhoi llawer o anogaeth i'r plant, gan roi llawer o ganmoliaeth iddynt am eu cyflawniadau a'u hymdrechion. Gwelsom y gwarchodwr plant yn defnyddio technegau tynnu sylw i gael y plant i ganolbwyntio o'r newydd ac i'w hannog i gydweithredu a rhannu. Roedd yn

amlwg bod y plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol yn y lleoliad ac roeddent yn ymateb yn dda i'r amgylchedd cynnes a'r rhyngweithio cadarnhaol.

Mae'r gwarchodwr plant yn fedrus wrth gefnogi rhyngweithio cadarnhaol rhwng y plant.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn diwallu anghenion unigol y plant, gan annog dysgu drwy chwarae. Roedd yn ymatebol i ymdrechion y plant i gyfathrebu; roedd yn cadw cyswllt llygad da ac yn gofyn cwestiynau er mwyn helpu i ddeall yr hyn roedd ei angen ar y plentyn a threuliodd lawer o'i hamser ar lefel y plant. Gwelsom enghraifft hyfryd o ddatblygu iaith a llythrennedd wrth i'r gwarchodwr plant ddarllen stori i'r plant. Anogodd y plentyn hŷn i ddarllen, gan ei helpu i seinio'r geiriau mwy anodd a gwnaeth y gwarchodwr plant a'r plentyn a oedd yn derbyn gofal annog y plentyn iau i geisio dweud rhai o'r geiriau. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi adborth ar lafar i'r rhieni ar ddatblygiad ac arferion dyddiol eu plentyn bob dydd. Fodd bynnag, nid yw'n cadw unrhyw gofnodion ysgrifenedig o gynnydd datblygiadol nac yn nodi'r camau nesaf yn eu dysgu'n ffurfiol. Gwelsom fod gan y gwarchodwr plant system cynllunio gweithgareddau sylfaenol ar gyfer y plant yn unol â digwyddiadau ar y calendr, megis Dydd San Ffolant, anifeiliaid anwes/anifeiliaid a'r fferm. Mae'n annog y plant i feddwl am syniadau ynglŷn â'r hyn y byddent yn hoffi ei wneud ac yn cynnwys yn rhain yn ei gwaith cynllunio, ynghyd â'r pethau y mae'n gwybod eu bod yn eu mwynhau. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y defnydd o'r Gymraeg gan fod llawer o'r plant y mae'n gofalu amdanynt yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad y plant, sydd wedi'u teilwra i fod yn addas i unigolion.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â iechyd a diogelwch yn hyrwyddo arfer da ar y cyfan, ond gellir gwella diogelwch tân. Mae'r adnoddau a'r teganau'n addas ac yn gyffredinol, gall y plant sy'n mynychu gael gafael arnynt. Mae digon o le i'r plant chwarae ac mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o'r lle hwn.

### Ein canfyddiadau

#### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu nifer o arferion dyddiol ac wedi datblygu gweithdrefnau sy'n helpu i nodi risg a'i leihau. Roedd y cartref wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yr holl adnoddau mewn cyflwr gweithio da. Roedd ardaloedd yn y cartref yn lân ac yn daclus ac roedd yr awyrgylch yn teimlo'n gartrefol. Cadwyd y drws ffrynt ar glo drwy gydol yr ymweliad a chedwir cofnod o ymwelwyr. Roedd y gwiriad nwy blynyddol wedi'i gwblhau ac roedd tystysgrif gosodiadau trydanol ar gael. Disgrifiodd y gwarchodwr plant ei harfer dyddiol, gan ddweud ei bod yn cynnal gwiriad gweledol bob bore cyn i'r plant gyrraedd. Dywedodd wrthym ei bod yn ymwybodol o ddiogelwch ac yn wyliadwrus o ran unrhyw risgiau, ac y byddai'n cymryd camau ar unwaith mewn cysylltiad ag unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn risg. Gwelsom fod ei hymarfer yn gyson â hyn. Er enghraifft, roedd hi'n codi teganau a allai beri risg o faglu o'r llawr. Mae asesiadau risg ysgrifenedig ar waith ar gyfer ardaloedd dan do ac awyr agored. Mae blanced dân yn sownd i'r wal yn y gegin ac mae'r pecynnau cymorth cyntaf yn hawdd cael gafael arnynt ac mewn cyflwr da. Defnyddir cyfarpar diogelwch ychwanegol lle y bo hynny'n briodol. Er enghraifft, giard tân a giât diogelwch plant. Gwelsom gofnod y larwm mwg, a wiriwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2019. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod ysgrifenedig o ymarferion tân. Nid oedd y gwarchodwr plant yn siŵr pryd y cynhaliodd ymarfer tân ddiwethaf ac roedd yn tybio mai ym mis Medi 2018 ydoedd. Roedd AGC wedi gwneud argymhellion yn ymwneud â phwysigrwydd cynnal ymarferion tân rheolaidd a'u cofnodi.

Ar y cyfan, mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân ond nid yw'r trefniadau diogelwch tân yn ddigonol.

#### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r cartref yn groesawgar ac yn ddeniadol. Gall y plant ddefnyddio'r llawr gwaelod i gyd, gan gynnwys ystafell ymolchi lawr grisiau sy'n hawdd ei chyrraedd, sy'n hyrwyddo annibyniaeth y plant. Roeddent yn defnyddio'r ardaloedd hyn drwy'r dydd gan ddilyn eu diddordebau eu hunain a chwarae neu ymlacio yn fodlon eu byd. Mae ardaloedd addas yn y ddwy ystafell lle gall y plant chwarae a gwneud gweithgareddau

wrth y bwrdd. Yn ystod yr arolygiad, roedd y plant yn eu defnyddio i chwarae gyda chlai ac i chwarae gemau adeiladu. Mae digon o le ar y llawr i'r plant chwarae ac mae soffas cyfforddus ar gael i'r plant ymlacio. Gall y plant ddefnyddio ardal chwarae balmantog awyr agored fawr a diogel, sy'n golygu y gallant chwarae yn yr awyr agored ym mhob tywydd. Mae blychau storio mawr yn cynnwys amrywiaeth dda o offer chwarae awyr agored. Roedd y rhain yn cynnwys teganau siglo, batiau a pheli, bygis a theganau reidio. Treuliodd y plant lawer o'u hamser yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored. Gall y plant fynd i nôl rhai o'r adnoddau'n hawdd, a chaiff adnoddau eraill eu storio mewn cypyrddau. Gall plant hŷn gael gafael ar rai o'r eitemau yn y cypyrddau llai yn annibynnol. Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu storio o dan y grisiau ac mae'n rhaid i'r plant ofyn am yr hyn y byddent yn hoffi chwarae gydag ef.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ardaloedd yn ei chartref, er mwyn sicrhau ei fod yn addas at ddibenion gwarchod plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Caiff y plant ddewis o adnoddau a chyfarpar chwarae a dysgu o ansawdd da, sy'n addas o ran eu datblygiad, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn glanhau'r teganau'n rheolaidd ac yn cael gwared ar unrhyw beth sydd wedi torri ar unwaith. Roedd tystiolaeth o hyn yn ei hasesiadau risg. Roedd y teganau a'r adnoddau yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gwelsom ddoliau amlddiwylliannol a llyfrau Cymraeg ymysg rhai o'r adnoddau y gallai'r plant chwarae â nhw.

Mae gan y gwarchodwr plant ystod amrywiol o adnoddau a chyfarpar er mwyn ehangu profiadau a datblygiad y plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaethau i safon foddhaol. Mae'n agored i adborth ac yn awyddus i ddatblygu ei hymarfer. Caiff dogfennau a chofnodion eu cadw i safon ddigonol gan fwyaf, a'u storio'n ddiogel. Mae hi wedi ennill enw da yn ei chymuned ac mae ganddi gydberthnasau cryf â'r teuluoedd y mae'n gweithio gyda nhw.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Roedd polisïau perthnasol ar waith, er bod angen adolygu a diweddaru rhai ohonynt. Gwnaethom edrych ar sampl o gontractau a chofnodion y plant a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan gynnwys caniatâd rhieni, sy'n sicrhau bod y rhieni'n gwbl ymwybodol o'r arferion a ddilynir. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd contract ar waith ar gyfer un plentyn sy'n mynychu ar sail ad hoc. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod ganddi'r holl wybodaeth bersonol ac y byddai'n cwblhau'r contract gofal ar unwaith. Nid oedd y Datganiad o Ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r busnes wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chaiff yr holl wybodaeth ei chadw'n ddiogel ac yn drefnus. Mae'r gwarchodwr plant yn aelod o sefydliad ymbarél sy'n darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus iddi a gwybodaeth sy'n briodol ar gyfer ei gwasanaeth. Gwelsom fod yswiriant car y gwarchodwr plant yn annilys at ddibenion busnes. Fodd bynnag, cytunodd i beidio â defnyddio'r cerbyd at ddibenion gwarchod plant, ac ers hynny mae wedi sicrhau yswiriant priodol.

Mae angen gwella arweinyddiaeth y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru).

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae systemau ar waith i gael barn y plant a'r rhieni. Mynegwyd barn gadarnhaol yn yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal. Er enghraifft, roedd y sylwadau'n cynnwys, “I feel lucky to have found Anita, and could not feel more safe and secure knowing that (my child) is with her.” Roedd sylwadau'r plant yn cynnwys “I love coming here” a “I never want to stop coming here”. Mae'r gwarchodwr plant yn cyfathrebu'n ddyddiol â'r rhieni i sicrhau y gall gael unrhyw wybodaeth ddefnyddiol gan y rhieni. Mae polisi cwynion ar waith, fodd bynnag, mae angen ei ddiweddaru i gynnwys mwy o fanylion am arolygu cydamserol a rhif ffôn cywir AGC. Ni chafwyd unrhyw gwynion am y gwasanaeth.

Mae'r dulliau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella a ddefnyddir yn foddhaol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn cyflawni ei rôl yn dda. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cyflogi unrhyw gynorthwywyr. Mae pawb sy'n byw yn y cartref wedi cael gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb i adnewyddu'r gwiriadau hyn bob tair blynedd. Mae'n ymgymryd â hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw arferion gorau a newidiadau i ddeddfwriaeth. Mae ganddi gynlluniau wrth gefn ar waith pe bai eu hangen mewn argyfwng, mae ganddi warchodwr plant wrth gefn enwebedig ac mae'r rhieni yn ymwybodol o hyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn pennu targedau realistig iddi ei hun a'i busnes.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae’r gwarchodwr plant yn cyfathrebu'n dda â’r rhieni. Mae sylwadau'r rhieni yn yr adolygiad o ansawdd y gofal yn canmol y gwasanaeth a gânt. Mae'r sylwadau'n cynnwys “As a family we could not be without you. It’s such a relief to have such a wonderful, caring, committed childminder” a “We’re very happy with the daily verbal feedback – works well for us.” Mae llawer o'r rhieni wedi dychwelyd at y gwarchodwr plant i ofalu am frodyr a chwiorydd am eu bod mor hapus â'r gofal a gânt. Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu partneriaethau yn y gymuned a chyda gwarchodwyr plant eraill. Mae'n cynnal grŵp chwarae lleol unwaith yr wythnos ac yn mynychu grwpiau lleol eraill i blant bach, gan gynnwys Ti-a-Fi. Eir ar dripiau dydd ymhellach i ffwrdd yn ystod gwyliau hanner tymor.  Mae'r plant yn cael digon o gyfleoedd i gymdeithasu ag eraill ac yn dod yn gyfarwydd â'r gymuned y maent yn byw ynddi ac yn cael profiad o fynd i fannau awyr agored gwahanol.

Mae'r plant yn cael budd o dreulio amser yn yr ardal leol ac o ddefnyddio cyfleusterau, yn ogystal â'r cydberthnasau da a gaiff eu meithrin â'r rhieni.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Trafodwyd yr argymhellion canlynol:

- Atgyfnerthu gwybodaeth am wneud atgyfeiriadau amddiffyn plant;
- adolygu a diweddaru'r polisi Amddiffyn Plant;
- adolygu a diweddaru'r polisi cwynion;
- sicrhau bod contractau ar waith ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu ac
- ystyried labeli adnoddau er mwyn hyrwyddo annibyniaeth y plant ymhellach.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a drefnwyd a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd dau arolygydd arolygiad dirybudd o'r gwasanaeth er i ni gysylltu â'r gwarchodwr plant ychydig cyn i ni gyrraedd er mwyn sicrhau ei bod gartref.
Gwnaethom y canlynol:

- treulio tua phum awr gyda'r gwarchodwr plant;
- edrych ar ymarfer y gwarchodwr plant a'r ffordd roedd yn rhyngweithio;
- siarad â'r gwarchodwr plant a'r plant a oedd yn bresennol am y gwasanaeth;
- adolygu'r wybodaeth a ddelir gan AGC;
- darllen holiaduron gan y rhieni;
- archwilio amrywiaeth o ddogfennaeth gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau, cofnodion dyddiol, ffeiliau dau blentyn a chofnodion perthnasol eraill a gedwir fel rhan o'r gwasanaeth
- cynnal arolygiad gweledol o'r ardaloedd a ddefnyddiwyd ar gyfer gwarchod y plant a
- darparu adborth ffurfiol ar ddiwrnod yr arolygiad

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Anita Horne** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:00am a 6:00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **29/07/15** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **27/02/2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. *Efallai mai'r rheswm dros hyn yw bod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf ac, ar hyn o bryd, nid yw'r darparwr yn bwriadu cynnig na hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg.*<br>Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol'.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |